# Côr Hen Nodiant: 2008 – 2018

**Côr Hen Nodiant**

Côr o bobl hŷn ardal Caerdydd a ffurfiwyd yn 2008 i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Mae'r côr wedi ennill y Gystadleuaeth Gorawl i Bensiynwyr yn 2010, 2011, 2012, 2013 a 2014 (o dan yr enw Côr y Mochyn Du) ac yn 2015, 2016 a 2017.



Eisteddfod Ynys Môn 2017

| **Arweinyddion:** | **Cyfeilyddion:** |
|---|---|
| Sioned James | Branwen Gwyn |
| Marian Evans | Ieuan Jones |
| Huw Foulkes | Marged Jones |



Ennill am y tro cyntaf yn Eisteddfod Glyn Ebwy 2010



Marian, Huw a Marged yn Eisteddfod y Fenni 2016



2010







Côr y Mochyn Du yn Eisteddfod 2008




# Côr Y Mochyn Du

Ar drothwy 2008 yng nghanol hwyl Parti Nos Galan Tafarn y Mochyn Du plannwyd y syniad fod cyfle newydd yn agor wrth heneiddio. Roedd yr Eisteddfod yng Nghaerdydd yn 2008. Felly beth am ffurfio côr pensiynwyr?

Dyna'r syniad dwl ddaeth allan o'r sgwrs wrth i ganol nos agosáu.

Ond a fyddai unrhyw un yn cofio'r sgwrs y bore wedyn?

Wel o fewn pythefnos roedd dros 40 o bobl wedi penderfynu dod at ei gilydd i weld beth oedd yn bosib.

Yn ffodus iawn roedd Sioned James, Arweinydd Côrdydd, yn y dafarn y noson honno ac yng nghanol yr hwyl cytunodd i roi cymorth i'r côr ifanc.

Doedd hi ddim yn hawdd dod â chriw newydd at ei gilydd. Rhai wedi canu mewn corau eraill a rhai heb ganu mewn unrhyw gôr a ddim yn darllen cerddoriaeth. Roedd rhaid dysgu'n gyflym a gweithio'n galed i ddechrau ar y daith. Cafodd y côr groeso i ymarfer yng Nghapel Salem a dechreuodd y gwaith o ddifri bob nos Fercher. Yr un peth oedd yn cadw llawer i fynd oedd yr addewid o gymdeithasu a diferyn yn Nhafarn y Mochyn Du ar ôl yr ymarfer caled. A dyna ddewiswyd yn enw ar y côr wrth i'r ffurflen gais cystadlu fynd i mewn ym mis Ebrill.

Wrth i'r Eisteddfod agosáu penderfynwyd ymarfer dwy waith yr wythnos a daeth cwmni ITV draw i weld y paratoadau.

Roedd yr Eisteddfod ar garreg y drws ar gaeau Pontcanna ond doedd hynny ddim o'n plaid wrth i ni gystadlu yn erbyn corau llawer mwy profiadol.

Bu rhaid aros yn amyneddgar am dair blynedd cyn i ni gael llwyddiant.



Sioned James yn arwain





Diolch i Sioned yn y Mochyn Du yn 2008

## Sioned James 1974 - 2016

Dawn cerddorol a dycnwch Sioned oedd wedi sicrhau fod criw o bobl hŷn yn gallu dod at ei gilydd a llwyddo i ddysgu cerddoriaeth o'r radd uchaf. Daeth i fwynhau fod yn rhan o'r gymdeithas o bensiynwyr a hoffai'r cyfle i gymdeithasu yn ein plith.

Tristwch mawr i'r côr oedd colli Sioned a hithau wedi rhoi cymaint i ni a'n herio i gyrraedd safonau cerddorion proffesiynol.




Ymweliad gan griw teledu ITV i ymarfer yn Salem cyn Eisteddfod 2008



Bethlehem, Gwaelod y Garth 2012



Ennill yn Eisteddfod Meifod 2015

## Newid delwedd

Ar ôl saith mlynedd penderfynwyd fod angen trefn gwahanol ar y côr. Cynhaliwyd cystadleuaeth i ddewis enw newydd. O'r cannoedd o syniadau gwreiddiol a doniol rhoddwyd tri enw i bleidlais yr aelodau a Chôr Hen Nodiant oedd y ffefryn.

## Tei ben i waered

Fel arfer y menywod sy'n cael trafferth dewis gwisg newydd ond y tro hwn y dynion aeth i bicil. Dewiswyd tei arbennig gyda arwyddion cerddorol addas i'r côr. Wrth ddosbarthu'r teis newydd sylweddolwyd fod  y patrwm ar llawer o'r teis ben i waered gyda'r arwydd trebl cleff yn edrych yn od iawn! Trwy ddyfalbarhad arbedwyd y dynion rhag canu a'u traed yn yr awyr!


## Dathlu

Mae dathlu yn hanfodol ar ôl gweithio mor galed ac mae angen sicrhaulleoliad neu westy addas ar gyfer noson y cystadlu. Ym Meifod glaniwyd mewn pabell ar gae rygbi ac yn ogystal a mochyn wedi'i rostio cafwyd gwledd o gabaré yn bennaf gan ddynion y côr.



Eisteddfod Dinbych 2013





E

Eis
tedd
fod
2016

Eisteddfod Genedlaethol
Sir Fynwy a'r Cyffiniau
29 Gorffennaf – 6 Awst 2016

National Eisteddfod
Monmouthshire and District
29 July – 6 August 2016

Mae'r dystysgrif hon yn arwydd i

Côr Hen Nodiant

ragori yn y gystadleuaeth

Côr Pensiynwyr dros 60 oed heb fod yn llai nag 20 mewn nifer
- Y Wobr Gyntaf

FRANK OLDING
CADEIRYDD

ELEN HUWS ELIS
TREFNYDD





Nerfusrwydd yn y twnel, Llanelli 2014



Bws yn torri lawr ar y ffordd i Eisteddfod Y Fenni 2016




Canu Carolau tuag at Cancr y Fron 2017

## Cyngherddau





2010




2012




2017




2012

## Y Gerddoriaeth

Boed trugaredd yr Arglwydd. John Rutter.
Bourrée. Bach. Tr. Anders Öhrwall.
Mor hawddgar yw dy bebyll. Eric Jones.
Llawenhewch yn yr Ior. Gerwyn Thomas.
Duw bydd i mi'n gred. John Rutter.
Craig yr Oesoedd. Tr. Jeffrey Howard.
Salm 23. Euros Rhys Evans.
Un wyt a'r Ysbryd Glân. Vivaldi.
Gwahoddiad. Tr. Jeffrey Howard.
Awn drwy'r dyffryn yn dawel at Dduw. Tr. Moses Hogan.
Am brydferthwch daear lawr. John Rutter.
Veni Sanctus Spiritus. Morten Lauridsen.
Medli o Ganeuon Cymraeg. Jeff Howard.
Darfod mae'r dydd. John Rutter.
Bachgen a Merch. Eric Whitacre.
O Fab y Dyn. Eric Jones.
Bendigedig. Robat Arwyn.
Abendlied. Rheinberger.
Gweddi'r Arglwydd. Eric Jones.
Carnifal. Rossini.
Y Dref Wen. Tecwyn Ifan.
Ysbryd y Nos. Hefin Elis.
Henffych Fair. Rachmaninov.
Bythol Olau. Robat Arwyn.
Hwiangerdd Y Morlo. Eric Whitacre.
Yn Nwfn y Galon. Tr Ieuan Jones.
Hen Ferchetan. Tr. Jeffrey Howard.
Ar noson hafaidd hwyr. Morten Lauridsen.
Heddiw yw'n dyfodol. Hefin Elis.
Rhyfeddod. Eric Jones.
Mi ganaf gân gyda'r Ysbryd. John Rutter.
Boed goleuni ar dy lwybrau. John Conahan.
Iesu Yw a Carol y Seren. Gareth Glyn.
Caneuon, carolau ac emynau.

## Elusennau

Drwy gynnal cyngherddau a gweithgareddau mae'r Côr wedi cefnogi nifer o elusennau yn cynnwys Ysbyty Felindre, Ambiwlans Awyr Cymru, Clefyd y Galon, Cancr y Fron, Cymorth Cristnogol a'r Eisteddfod Genedlaethol.



Gŵyl Dinas Powys 2014



Cyngerdd i elusen Capel Salem

gyda Chôr Canna Tachwedd 2016

Diolch arbennig i Gapel Salem, Treganna, am gael defnyddio'r festri ar gyfer yr ymarferion.

## Y Geiriau

Mae llwyddiant llawer o'r caneuon yn dibynnu ar gyfieithiadau arbennig. Rydym yn ffodus i gael cymorth Dr. Emyr Davies, bardd a cherddor profiadol, sydd wedi cyfieithu geiriau ar ein cyfer. Hefyd mae un o aelodau'r côr, Y Prifardd Glenys Roberts, wedi cyfieithu caneuon i ni.



Recordio pymtheg emyn ar gyfer CD yn y gyfres Hoff Emynau, Chwefror 2018

Cyhoeddwyd Mawrth 2018.